



YSGOL LLANDYGAI

POLISI ADDOLI

TREFN ADDOLI

Mae'r holl ysgol yn ymgynnull ar Ddydd Gwener am 9.15yb.

Cynhelir gwasanaeth y Cyfnod Sylfaen ar ddydd Llun am 2:15yp ac am 10:00yb ar gyfer yr Adran Iau.

Cynhelir gwasanaeth arbennig gan y Parch John Matthews ar ddydd Mawrth am 9:00, yn rheolaidd.

Cynhelir Cyfnodau Addoli a Myfyrio ysgol gyfan ar ddydd Mercher am 12:00.

Cychwynnir pob sesiwn y bore â'r Weddi hon:

O Dduw, Dechrau diwrnod hapus,

Yn ein hysgol ni.

Gofal drwy'r holl ddiwrnod

Geisiwn gennyt Ti.

Amen

Adroddir y weddi hon cyn cinio, yn y dosbarthiadau:-

O Dad yn deulu dedwydd,

Y deun a diolch o'r newydd.

Cans o'th flaen y daw bob dydd

Ein lluniaeth a llawenydd. Amen.

Dyma'r Weddi ar ddiwedd y dydd:-

O Dduw, Diwedd diwrnod hapus,

Yn ein hysgol ni.

Gofal wrth fynd adref,

Geisiwn gennyt Ti. Amen.

AMCAN

Nôd y ddarpariaeth yw rhoi cyfle i ddisgyblion baratoi, cyflwyno a chymryd rhan er mwyn profi rhyfeddod trwy addoliad. Bydd y cyfnodau o addoli yn adlewyrchu sylfaen Gristnogol yr ysgol, Datganiad Ethos yr Offeren Llywodraethu a'r Ddogfen Ymddiriedolaeth ac sy'n cwrdd â'r gofynion statudol o gynnal gweithred o addoli yn ddyddiol.

1. Rhoi cyfle i addoli Duw Hollalluog; Tad, ei Fab Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân.
2. Cyflwyno disgyblion i'r arferiad addoliad yr Eglwys.
3. Cyflwyno a dysgu Gweddi'r Arglwydd a'r Gras a rhoi cyfloedd i'r disgyblion ddatblygu naws gweddigar gan eu hannog i ddefnyddo gweddiau eu hunain.
4. Cynnwys y disgyblion mewn cynllunio, paratoi ac arwain addoliad gan gefnogi unigrwydd eu gweddiau.
5. Galluogi'r disgyblion i ymuno yn barchus mewn gweithredoedd o addoliad.
6. Cynllunio cylch o themâu ar gyfer addoli sy'n adlewyrchu'r Flwyddyn Eglwysig, prifwyliau Cristnogol y Nadolig, y Pasg, y Sulgwyn a Diolchgarwch (yn ogystal â bod yn gysylltiedig, lle bo hynny'n bosib, â'r cylch

o themâu dosbarth.)

7. Cynorthwyo datblygiad ysbrydol pawb sydd yn rhan o'r addoli, trwy eglurhad neges yr efengyl, bywydau y seintiau, a thrwy bwysleisio gwerth yr hyn sydd yn anfateryddol, fel prydfferthwch a heddwch.
8. Cynorthwyo datblygiad moesol y disgyblion, ac i bwysleisio gwerth ymddygiad cyfrifol o fewn cymuned cariadus yr ysgol a'r gymdeithas ehangach, lle gwerthfawrogir pob person beth bynnag fo'i cyfraniad i'r gymuned neu'r gymdeithas yna.
9. Dathlu llwyddiant a'r hyn a gyflawnwyd gan yr ysgol a'i disgyblion unigol.
10. Cadw cofnod o bob weithred o addoli.
11. Sicrhau bod deunydd digonol ar gael i gefnogi'r ddarpariaeth addoli.
12. Gwahodd Gweinidogion y Plwyf (ac eraill), i gymryd rhan, ac arwain addoliad yn yr ysgol yn rheolaidd.
13. Gwneud rhieni'n ymwybodol o natur wirfoddol addoli a'u hawl i eithrio'u plant o'r addoliad. Mae rhaid gweud hyn yn ysgrifenedig i'r Pennaeth, yn dilyn trafodaethau gyda hi/fo yn gyntaf.

Mabwysiadwyd y Polisi: Hydref 2011

Diwygwyd y Polisi : Haf 2012

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Dr Einir Young

Pennaeth: C Hughes

Diwygwyd y Polisi: Haf 2016.

Cadierydd: Y Parchedig John Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris